

## GABE, RHYS THOMAS (REES THOMAS GAPE; 1880 - 1967), chwaraewr rygbi

**Enw:** Rhys Thomas Gabe

**Dyddiad geni:** 1880

**Dyddiad marw:** 1967

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** chwaraewr rygbi

**Maes gweithgaredd:** Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden

**Awdur:** Gareth W. Williams

Ganwyd 22 Mehefin 1880 yn Llangennech, Sir Gaerfyrddin. Bu'n chwarae'n lleol cyn cynrychioli Llanelli am y tro cyntaf yn 17 oed. Enillodd y cyntaf o'i 24 o gapiau (1901-8) ar yr asgell yn erbyn Iwerddon ar 21 Mawrth 1901. Fel canolwr y daeth i enwogrwydd. Meddai ar yr holl ddoniau; yn ddi-ildio'i amddiffyn, wrth ymosod rhedai'n syth a phenderfynol. Yn dwyllodrus, cadarn ac esgymrog, yr oedd yn un o'r mwyaf anodd i'w daclo. Yn 1901 cychwynnodd ar gwrs i'w hyfforddi'n athro yng ngholeg Borough Road, Llundain, a chwaraeodd am gyfnod gyda'r Cymry yn Llundain. Ar ôl teithio i Awstralia gyda'r tîm Prydeinig yn 1904, dychwelodd i fod yn athro ysgol yng Nghaerdydd, a sgoriodd 51 cais mewn 115 gêm dros glwb y ddinas cyn rhoi'r gorau iddi yn 1908. Cyfrannodd yn allweddol at fuddugoliaeth hanesyddol Cymru (3-0) dros y Crysau Duon yn 1905, ac ynghyd ag Erith Gwyn Nicholls, William ('Willie') Morris Llewellyn ac Edward ('E.T.') Morgan ffurfiodd y llinell dri chwarter ddisgleiriaf a gynrychiolodd Gymru erioed. Bu farw 15 Medi 1967 yng Nghaerdydd.

### Awdur

Yr Athro Gareth W. Williams

### Ffynonellau

W. Thomas, *A century of Welsh rugby players* (Birmingham 1980) (1980)

David Smith a Gareth Williams, *Fields of Praise. The official history of the Welsh Rugby Union 1881-1981* (Caerdydd 1980) (1980)

*Western Mail* a *The Times*, 18 Medi 1967

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Rhys Gabe

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q3401357

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Evch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Williams, G. W., (1997). GABE, RHYS THOMAS (REES THOMAS GAPE; 1880 - 1967), chwaraewr rygbi. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-GABE-THO-1880>

Clippwr

Preifatwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government